Pecyn Dogfennau

Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD GWENER, 3 TACHWEDD 2017**

**AT: YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU** A GYNHELIR YN **ROOM 72A , COUNTY HALL, CARMARTHEN** AM **10.00 AM,** AR **DYDD GWENER, 10FED TACHWEDD, 2017** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

*Mark James* DYB

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Janine Owen** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224030** |
| **E-bost:** | **JanineOwen@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

# A G E N D A


1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

2. **LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNOD PENDERFYNIADAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR:-**

   **2 .1 8FED MEDI, 2017** 3 - 6

   **2 .2 21AIN MEDI, 2017** 7 - 8

3. **ADRODDIADAU NAD YW I'W GYHOEDDI**

   **ADRODDIAD EITHRIEDIG YN UNOL Â PHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12(A) I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, (FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007) GAN EI FOD YN CYNNWYS GWYBODAETH AM FATERION ARIANNOL NEU FUSNES UNRHYW UNIGOLYN (GAN GYNNWYS YR AWDURDOD Y MAE'R WYBODAETH HONNO YN EI FEDDIANT).**

4. **DILEU ÔL-DDYLEDION CYN-DENANTIAID ASIANTAETH GOSOD TAI CYMDEITHASOL** 9 - 16

5. **TRETH Y CYNGOR - GOSTYNGIADAU YN ÔL DISGRESIWN** 17 - 36

6. **TRETHI ANNOMESTIG - CYMORTH CALEDI** 37 - 54

# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU

## DYDD GWENER, 8 MEDI 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd: D.M. Jenkins (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Yn bresennol fel sylwedyddion:-**
Ms R. Lumley-Gower, Swyddog Tai.

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
J. Gravelle, Rheolwr Gwasanaethau Refeniw
J. Jones, Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr
S. Lewis, Arweinydd Tîm, Gorfodi ac Atebion Tai
H.M. Newman, Swyddog Cymorth - Rheoli Asedau
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 2:00pm - 3:20pm

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNOD PENDERFYNIADAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 13EG GORFFENNAF, 2017**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2017 yn gofnod cywir.**

**3. HEN THEATR ELLI, HEOL YR ORSAF, LLANELLI**

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad ynghylch yr hen Theatr Elli, Heol yr Orsaf, Llanelli. Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth ynghylch gwerthu'r eiddo ym mis Tachwedd 2014 gyda chymal gorswm yn y cytundeb gwerthu. Roedd y cymal yn rhoi'r hawl i'r Awdurdod adfachu 50% o unrhyw arian grant a sicrheir ar gyfer gwaith allanol i'r adeilad, hyd at derfyn o £150,000.

Tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith fod perchennog newydd yr adeilad (Calon Llanelli) yn ceisio am gyllid grant gan Cadw a Chronfa Dreftadaeth y Loteri er mwyn ymgymryd â gwaith treftadaeth a fyddai'n gwella golwg yr adeilad. Roedd y gwaith penodol a gynigir yn cael ei amlinellu yn y ddogfen a atodir i'r adroddiad.

Ar sail yr adroddiad, nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod perchennog yr adeilad wedi holi a ddylai'r cymal gorswm fod yn berthnasol i'r grantiau hyn gan nad oedd y gwaith yn benodol i'r ffasâd teils nac i'r to, sef yr hyn y bwriadwyd y gorswm ar ei gyfer yn wreiddiol.

Dywedodd y Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr y byddai'r Awdurdod, petai'n adfachu arian am y gwaith penodol hwn, yn mynd yn groes i ysbryd y cytundeb gorswm a bod yr Awdurdod yn annog y gwaith gwella i adeilad amlwg yng nghanol tref Llanelli.

Cynigiwyd felly y dylid rhoi caniatâd i'r gwaith treftadaeth penodol a nodwyd yn y ddogfen a atodwyd ac na fyddai'r ddarpariaeth gorswm yn berthnasol ar yr achlysur hwn.

Petai ceisiadau grant pellach yn cael eu gwneud yn y dyfodol nodwyd y byddai'r rhain, a goblygiadau'r trefniant adfachu, yn cael eu hystyried ar yr adeg honno.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL roi caniatâd ar gyfer y gwaith treftadaeth arfaethedig ac ni fyddai darpariaethau gorswm y cytundeb gwerthu yn berthnasol i'r gwaith penodol hwn, fel yr amlinellwyd yn y ddogfen a atodwyd i'r adroddiad.**

## 4. BWRIAD I WAREDU TIR YNG NGERDDI'R FFYNNON

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad mewn perthynas â'r bwriad i werthu tir yng Ngerddi'r Ffynnon, Caerfyrddin a darparodd wybodaeth ynghylch gwrthwynebiad oedd wedi dod i law.

Dywedodd y Swyddog Cymorth Rheoli Asedau fod tir yng Ngerddi'r Ffynnon, Caerfyrddin, fel rhan o'r rhaglen derbyniad cyfalaf, wedi ei nodi'n dir nad oedd ei angen o bosibl a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'w werthu er mwyn lleihau atebolrwydd a chostau cynnal a chadw'r Cyngor a chreu derbyniadau cyfalaf. Felly, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972 Adran 123(2a) roedd y Cyngor wedi cyhoeddi Hysbysiad Man Agored Cyhoeddus yn y Carmarthen Journal a'r Llanelli Star am ddwy wythnos yn olynol, 24ain Mai 2017 a 31ain Mai 2017, yn gwahodd sylwadau erbyn 28ain Mehefin 2017.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, er ei fod yn cydnabod y byddai gwerthu'r tir yn lleihau atebolrwydd a chostau cynnal a chadw'r Cyngor ac yn creu derbyniad cyfalaf, fod gwrthwynebiad i'r hysbysiad ynghylch y tir yng Ngerddi'r Ffynnon wedi dod i law a bod yn rhaid ei ystyried yn unol â'r Ddeddf Llywodraeth Leol.

Ar ôl rhoi ystyriaeth i'r gwrthwynebiadau oedd wedi dod i law yn sgil yr Hysbysiadau Mannau Agored Cyhoeddus, a gyhoeddwyd yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972 Adran 123 (2a),

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor Sir yn bwrw ati i werthu'r tir yng Ngerddi'r Ffynnon, Caerfyrddin.**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

5. **ADRODDIADAU NAD YW I'W GYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 14 ac 17 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

6. **DILEU DYLEDION CYN-DENANTIAID**

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 5 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys data personol am gyn-denantiaid y cyngor, ynghyd â manylion am eu hôl-ddyledion rhent. Dywedwyd nad oedd cyfiawnhad dros gyhoeddi dyledion unigol, ac y byddai hynny'n anfanteisiol i hawliau a rhyddid yr unigolion perthnasol. Felly, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad oedd wedi ei lunio'n unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor a oedd yn gofyn am ddileu dyledion o fwy na £1,500 gan gyn-denantiaid. Nodwyd bod y Polisi ynghylch Ôl-ddyledion Cyn-denantiaid yn nodi'n glir y meini prawf yr oedd yn rhaid cydymffurfio â hwy wrth benderfynu a oedd yn annarbodus cymryd camau pellach er mwyn ceisio casglu dyled gan gyn-denant.

Tynnwyd sylw'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol at rai gwallau teipio oedd yn yr adroddiad a ddarparwyd. Yng ngoleuni'r gwallau, nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol gyfanswm diwygiedig y ddyled.

**PENDERFYNWYD dileu ôl-ddyledion y cyn-denantiaid, fel yr oeddid wedi manylu arnynt yn yr adroddiad, am nad oedd modd eu hadennill.**

7. **CYFRIFON NA ELLIR EU HADFER**

**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 5 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am ddyledion unigolion a/neu wybodaeth bersonol. Er y byddai datgelu'r adroddiad i'r cyhoedd yn hybu atebolrwydd o ran cyllid cyhoeddus, byddai hefyd yn datgelu gwybodaeth**

**ariannol gyfrinachol. Felly, ar ôl pwyso a mesur y mater, yr oeddid yn barnu bod y budd i'r cyhoedd o ran cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar dri chyfrif gordaliad budd-dal oedd wedi eu clustnodi'n rhai anadferadwy. Yr oedd yr holl weithdrefnau adennill wedi cael eu defnyddio, lle'r oedd hynny'n briodol, ac nid oedd dim tebygolrwydd y byddai modd cael y taliadau. Felly, bernid ei bod yn briodol dileu'r cyfrifon hyn.

**PENDERFYNWYD bod y cyfrifon dyledus y manylwyd arnynt yn yr adroddiad yn cael eu dileu am nad oedd modd adennill y taliadau.**

**8. TRETHI ANNOMESTIG - CYMORTH CALEDI**

**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 5 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am hanes ariannol diweddar trethdalwyr unigol a/neu wybodaeth bersonol. Er y byddai datgelu'r adroddiad i'r cyhoedd yn hybu atebolrwydd o ran cyllid cyhoeddus, byddai hefyd yn datgelu gwybodaeth ariannol gyfrinachol. Felly, ar ôl pwyso a mesur y mater, yr oeddid yn barnu bod y budd i'r cyhoedd o ran cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried ceisiadau am Ryddhad Caledi o dan ddarpariaethau Adran 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 fel y'i diwygiwyd.

**PENDERFYNWYD:**

- **bod 50% o'r cynnydd ar gyfer 2017/18 yn cael ei hepgor yn achos cais cyfeirnod 80013741;**
- **bod 20% o dâl y flwyddyn gyfredol yn cael ei hepgor yn achos cais cyfeirnod 80014557;**
- **bod cais cyfeirnod 80022589 yn cael gostyngiad o 50% ar yr holl daliadau cyn 2017/18;**
- **bod 50% o'r cynnydd ar gyfer 2017/18 yn cael ei hepgor yn achos cais cyfeirnod 30033902;**
- **bod 50% o atebolrwydd net y flwyddyn gyfredol yn cael ei hepgor yn achos cais cyfeirnod 80021787;**
- **gwrthod ceisiadau cyfeirnod 80018585 a 80013791.**

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** ____________________ **DYDDIAD** ____________________

# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU

**DYDD** Iau, 21 Medi 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** D.M. Jenkins (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
H. Humphreys, Uwch Prisiwr
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Swyddfa'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 1.15 - 1.45 pm

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. ADRODDIAD NAD YW I'W GYHOEDDI

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 3. TIR YNG NGORLLEWIN CROSS HANDS

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 2 uchod beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Mae prawf budd y cyhoedd yn y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith bod y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad mewn perthynas â'r adroddiad dan Ddeddf 1976 yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth sydd ynddo gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn peryglu cyllid cyhoeddus.**

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a fanylai ar gynigion ynghylch tir yng Ngorllewin Cross Hands.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y cynnig diwygiedig y manylwyd arno yn yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

______________________________ __________________
**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol